*These notes refer to the Mesur Caeau Chwarae (Ymgysylltiad Cymunedau Â Phenderfyniadau Gwaredu) (Cymru) 2010 (c.6)*

# MESUR CAEAU CHWARAE (YMGYSYLLTIAD CYMUNEDAU Â PHENDERFYNIADAU GWAREDU) (CYMRU) 2010

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

***Adran 2 – Diwygio Deddf Llywodraeth Leol 1972 (p.70)***

7. Mae adran 2 yn diwygio adran 123 (gwaredu tir gan y prif gynghorau) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ("Deddf 1972") sy'n gwneud darpariaeth ynghylch gwaredu mannau agored gan yr awdurdodau lleol. Mae'r diwygiad a wneir gan is-adran (2) yn darparu y bydd gwaredu tir gan y prif gynghorau, hynny yw cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol, yn ogystal â dod o dan ddarpariaethau adran 123, hefyd yn dod o dan ddarpariaethau'r Mesur. Mae is-adran (3) yn gwneud diwygiad tebyg i adran 127 o Ddeddf 1972 (gwaredu tir gan blwyfi a chymunedau).